

## Blwyddyn o ryfela yn Wcráin

Flwyddyn yn ôl, roedd y byd yn ymwybodol fod Rwsia yn paratoi i herio llywodraeth Wcráin a cheisio goresgyn rhan o'r wlad, os nad y cyfan ohoni. Hawliodd yr Arlywydd Putin ar 24 Chwefror 2022 ei fod yn amddiffyn rhannau o ddwyrain Wcráin oedd wedi cynnal gwrthryfel yn erbyn llywodraeth Kiev.

Tybiaeth y mwyafrif o'r sylwebyddion oedd derbyn bod disgwyliadau'r Arlywydd Putin yn agos i'w lle, ac y byddai llywodraeth Wcráin yn ildio o fewn wythnosau. Nid felly y bu. Doedd neb wedi tybio y byddai poblogaeth gyfan yn barod i aberthu dros hunaniaeth a rhyddid Wcráin. Un o sloganau cynnar Wcráin oedd: 'Pe bai Rwsia yn peidio ymladd, ni fyddai rhyfel; os byddai Wcráin yn peidio ymladd, ni fyddai yna Wcráin.'

Clywsom ddatganiad arall yn gyson yn dweud bod byddin Wcráin yn ymladd, nid yn unig dros hunaniaeth y genedl ond dros hawliau rhyddid pob cenedl. Wrth i'r Arlywydd Volodymyr Zelenskyy ymweld â gwledydd Ewrop ac America, yn gofyn am fwy o arfau milwrol, mae'n hawdd gwerthfawrogi dewrder ac ymroddiad cenedl gyfan i hawlio'u rhyddid.

Dros y deg mis hyd diwedd 2022, roedd 14 miliwn o bobl yn ffoaduriad, gydag ychydig dros eu hanner yng ngwledydd Ewrop, ac eraill yn ffoaduriaid oddi mewn i Wcráin. Yn ôl ystadegau'r Cenhedloedd Unedig, roedd 18,000 o bobl wedi eu niweidio, a 40% o gartrefi wedi eu chwalu, a bod Rwsia wedi bomio strwythurau rhyngweithiol i bwerdai yn y wlad. Pwy all fesur y gost i'r amgylchedd na sylweddoli bod economi Wcráin wedi crebachu o 35%? Tactegau diweddaraf



Llun: <https://unsplash.com/photos/80HC7Hjisc>

Rwsia oedd bomio anheddau dinasoedd Wcráin yn gwbl ddi-hid, a thybir y daw ton filitaraidd newydd yn y gwanwyn.

Byddai'n ffôl meddwl mai blwyddyn yn ôl y dechreuodd yr anghydfod hwn. Pan hawliodd Rwsia benrhyn y Crimea yn 2014, roedd nod yr Arlywydd Putin yn amlwg. Roedd gwleidyddiaeth Wcráin wedi bod yn anwadal ei pholisïau, ac yn oddefgar i dwyll a hunanoldeb o fewn rhengoedd eu llywodraethau. Cynhyrchai ffermwyr Rwsia ac Wcráin gyda'i gilydd chwarter o holl ýd y byd. Pa ryfedd fod gwledydd fel Yemen a Syria ar eu cythlwg ar hyn o bryd, a bod prinder blawd mewn llun o wledydd wedi peri bod pris bara wedi codi? Ni wyddom beth yn union yw effaith y sancsiynau economaidd ar Rwsia nac i ba raddau y bydd bygythiad Putin i ddefnyddio arfau niwclear yn un real.

Mae cymaint na wyddom am yr hyn fydd yn digwydd yn sgil y rhyfel arswydus yma. Mae'n gywilydd inni fod rhyfeloedd cartref yn digwydd mewn cynifer o wledydd eraill, yn arbennig ar gyfandir yr Affrig, ac nid yw'r wasg yn rhoi sylw iddynt. Does neb ar ei ennill mewn rhyfel, ac os cyhoeddir bod Rwsia wedi colli, ni fydd Wcráin wedi ennill. Ymhen ychydig flynyddoedd, bydd llys cyfiawnder yr Hâg yn siŵr o ddwyn yr Arlywydd Putin i wynebu cyhuddiadau am dreisio Wcráin, ond bydd y drasedi i Wcráin yn aros, a'r golled i'w phobl yn anfesuradwy. Ni allwn ond gobeithio y byddant yn sicrhau eu hannibyniaeth, ac y daw cenhedloedd byd i'w cynorthwyo i ailadeiladu eu heconomi a'i hadeiladau drachefn. Gweddïwn am ddod â'r dioddefaint dynol i ben, am heddwch cyfiawn i'r Wcraniaid a'i parhad fel cenedl sofran.

Rhan o'r dasg honno yw annog Cristnogion Rwsia ac Wcráin i sylweddoli eu bod yn perthyn i'r un deyrnas nefol. Mae Eglwys Uniongred Rwsia a'r Eglwys Uniongred Ddwyreiniol yn Wcráin yn rhannu llawer o ddaliadau tebyg. Byddant yn deall ei gilydd. Dioddefodd yr eglwysi Protestannaidd yn y Crimea lawer o dan lywodraeth Rwsia, yn arbennig dan deddf gwrth-efengyleiddio 2016. Gallwn ninnau ymchwilio mwy i ddeall y cymhlethdodau eglwysig yn y ddwy wlad, a gweddïo am gymod o fewn y cyfundrefnau Cristnogol. Cam pwysig arall fyddai gweld trafodaeth rhwng Moslemiaeth a Christnogaeth yn y gwledydd hyn. Mor gymhleth yw ein byd. Gobeithio y daw'r rhyfela i ben eleni, ac yr ailadeiladir cartrefi, yr economi a'r gymdeithas yn nwyrain Ewrop.

*Denzil John*

## Gweddi dros Wcráin

cymorth  
cristnogol**A wnaiff eich eglwys ymuno â ni mewn gweddi ar ddydd Sul, 26 Chwefror?****Pen-blwydd y Rhyfel yn Wcráin**

Bydd 24 Chwefror yn nodi blwyddyn union ers dechrau'r rhyfel yn Wcráin. Rydyn ni wedi gweld sut mae'r ymosodiad gan luoedd Rwsia yn dinistrio cartrefi a rhyddid pobl Wcráin. Mewn ymateb, mae llawer o eglwysi a chefnogwyr Cymorth Cristnogol wedi rhoi gyda haelioni rhyfeddol, sydd wedi'n galluogi ni i weithio trwy ein partneriaid, i ddarparu gobaith ac i sicrhau fod pobl yn goroesi ac yn ailadeiladu. Diolch.

**Dod ynghyd ar gyfer Gweddi yng Nghymru:  
Dydd Gwener, 24 Chwefror**

Rydyn ni'n gwahodd eglwysi ledled gwledydd Prydain a'r Iwerddon i ymuno mewn gweithred o dystiolaeth i weddio dros Wcráin, am ddiwedd i'r gwrthdaro a thros bawb sydd wedi'u heffeithio fel canlyniad i'r rhyfel erchyll hwn. Ar ddydd Gwener, 24 Chwefror, bydd sawl cynulliad yn digwydd ledled y DU, gan gynnwys rhai yng Nghymru. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth: [cymru@cymorth-cristnogol.org](mailto:cymru@cymorth-cristnogol.org).

**Dydd Sul, 26 Chwefror**

Rydyn ni hefyd yn gwahodd eglwysi i ymuno mewn gweddi ac undeb ar ddydd Sul, 26 Chwefror. Ystyriwch gymryd rhan mewn cyfnod o weddi, un ai yn ystod eich addoliad ar y Sul neu yn eich cymuned ar un ai dydd Gwener y 24ain neu ddydd Sul, y 26ain o Chwefror

**Syniadau am weddio creadigol**

Fel rhan o'ch gwasanaeth, efallai yr hoffech lunio calonnau glas a melyn i bobl gael cofnodi eu gweddïau, a'u harddangos ar hysbysfwrdd. Neilltuwch ychydig amser i fyfrio a gweddïo dros y sefyllfa yn Wcráin wrth ichi blannu hedyn blodyn haul. Anogwch bobl i ddal ati i weddio trwy gydol y misoedd sy'n dod bob tro y byddan nhw'n dyfrio eu blodyn haul.



Ar y cyd, fel Cristnogion, yn yr ynysoedd hyn a chydai rhai hynny yn Wcráin, gweddiwn am derfyn i'r gwrthdaro hwn ac am heddwch yn ein byd.

**Gweddi dros Wcráin**

Dduw Mawr a Hollalluog, derbyn ein diolchgarwch am dy ras diddiwedd tuag aton ni. Clyw ymbil ein calonnau dioddefus dros wlad a phobl Wcráin, wrth iddyn nhw wynebu ymosodiad a gormes estron. Agor llygaid y rhai hynny sydd wedi'u meddiannu gan ysbryd twyll a thrais, fel eu bod yn arswydo wrth ystyried eu gweithredoedd. Sicrha fuddugoliaeth dros y grymoedd drwg sydd wedi codi a bendithia Wcráin gyda dy roddion o ryddid, heddwch, tangnefedd, a ffyniant.

Ymbiliwn arnat, O Dduw Trugarog, i edrych gyda gras ar y rhai hynny sy'n amddiffyn eu tir gyda'r fath wroldeb. Cofia'r mamau a'r tadau, y plant diniwed, y gweddwon a'r plant amddifad, yr anabl a'r diymadferth, y rhai sy'n ceisio lloches a noddfa, sy'n estyn allan atat ti ac at eu cyd-ddyn, gan chwilio am drugaredd a thosturi. Bendithia galonnau'r rhai sydd eisoes wedi dangos haelioni mawr a chydgefnogaeth, a'r rhai hynny sy'n paratoi i dderbyn eu brodyr a'u chwirydd o Wcráin ar adeg angen mwyaf y wlad. Dwyn ni at ein gilydd fel dy blant, dy greadigaeth, a sefydlu o'n mewn dy nerth, dy ddoethineb a dy ddealltwriaeth. Boed mawl a gogoniant i ti, nawr a hyd byth, ac yn oes oesoedd. Amen.

**Cysylltwch â ni**

Cymorth Cristnogol,  
Capel Tabernacl  
81 Heol Merthyr  
Yr Eglwys Newydd  
Caerdydd  
CF14 1DD  
T: 029 2084 4646  
E: [cymru@cymorth-cristnogol.org](mailto:cymru@cymorth-cristnogol.org)  
W: [christianaid.org.uk](http://christianaid.org.uk)

Ymunwch gyda ni **#GweddiwnDrosWcráin****Lleoliadau ac amseroedd 24ain Chwefror 2023**

Canolfan Noddfa, Penmaen-mawr	10.00 o'r gloch
Eglwys y Santes Fair, y Waun	14.00 o'r gloch
Adeilidion Eglwys y Santes Fair ger yr afon yn y Drenewydd neu, os yw'r tywydd yn wael, yng Nghanolfan Gristnogol y Cilgant	16.00 o'r gloch
Sgwâr Nott, Caerfyrddin	18.00 o'r gloch
Gweddio ar Zoom – dolen gysylltu gan <a href="mailto:jweaver@christian-aid.org">jweaver@christian-aid.org</a>	13.00 o'r gloch
***Capel Bethesda, yr Wyddgrug (**nos Iau 23/2/23)	19.30 o'r gloch

# Rhodd Gostus Crist o Gymod

## Cyflwyniad

Yn ystod y Grawys rydym yn ddiolchgar i Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) am fyfyrddod wythnosol i'w gyhoeddi yn Gymraeg yn *Cenn@d* gan ddechrau ar ddydd Mercher y Lludw.

Drwy ddarllen yr Ysgrhythur, myfyrio a thrafod cwestiynau, cynnig argymhellion ar gyfer gweithredu a gweddi, ceisiwn barhau â'r daith a gychwynnwyd yn Unfed Cynulliad ar Ddeg Cyngor Eglwysi'r Byd yn Karlsruhe, yr Almaen. Edrychwn ymlaen at gynulliad mawr arall o'r Eglwys fyd-eang a gynhelir yn Ewrop eleni, Cynulliad Cyffredinol Cynhadledd Eglwysi Ewrop. Ac ystyriwn rai o'r heriau sy'n wynebu'r Eglwys wrth weithio ar gymodi, a ysbrydolwyd gan waith y mae CTBI yn ei gefnogi neu'n arwain arno. Rydym yn ddiolchgar am eich gweddiâu a'ch cyfraniad i'r gwaith hwn, wrth i ni ymchwilio i arwyddocâd undod Cristnogol mewn perthynas â chenhadaeth cymodi'r Eglwys â'n gilydd.

## Wythnos 1

**“Cariad Crist yn symud y byd tuag at gymod ac undod”**

**Ysgrhythur:** Mathew 9: 35–8

## Myfyrddod

Dechreuwn y gyfres hon o'r Grawys gyda myfyrddod ar ein galwad. Wrth ddarllen y dogfennau a'r datganiadau a ddaeth allan o unfed Cynulliad ar ddeg Cyngor Eglwysi'r Byd, gall graddfa a maint y pwysau sydd ar berthnasau a'r rhwystrau i lewyrch dynol deimlo'n llethol. Heb amheuaeth, mae yna angen am fwy o weithwyr yn y maes. Yn y darn yma o'r Ysgrhythur, cawn ein hatgoffa na all gwaith cymodi ddigwydd heb arweinyddiaeth ac ymdrech ddynol. Gelwir arnom i wasanaethu a gwireddu gweledigaeth Teyrnas Duw ar gyfer y sawl sydd yn dioddef. Yr ymrwymiad yma sydd wrth galon ein taith eciwmenaidd.

Pa ran a chyfrifoldeb allai fod gennym wrth annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y gwaith hwn? Beth yw rhai o'r rhwystrau sydd yn atal neu'n anghymhell Cristnogion rhag cymryd rhan weithgar yng ngwaith



heddwch a chymodi, a chysylltu'r gwaith hwn i'w ffydd? Ydy'r alwad am gymod gan yr Eglwys yn cael ei lleisio'n ddigon cryf, ac mewn modd sy'n cysylltu ag amgylchiadau bywyd dyddiol pobl? Beth yw ein hymateb i'r sawl nad yw'n ystyried fod yr Eglwys yn arweinydd credadwy wrth weithio dros heddwch? Dyma rai o'r cwestiynau efallai y dymunwn fyfyrto ynglŷn â nhw wrth i ni ystyried nid yn unig ein galwad personol ein hunain, ond hefyd ein cyfrifoldeb i gefnogi eraill i ymgysylltu â ni yn y gwaith hwn.

Yn ystod yr wythnos hon bydd ein calonnau yn teimlo dros bobl yr Wcráin yn arbennig wrth i ni gofnodi pen-blwydd cyntaf yr ymosodiad llawn gan Rwsia gyda thrais di-baid, dinistr a cholled dioddefaint na ellid ei ddychmygu. Un o'r heriau niferus a ddaeth i'r wyneb yn ystod Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd oedd yr anhawster o siarad am heddwch yng nghanol erchyllterau rhyfel. Gweddiwn dros y sawl sydd yn ceisio cadw gweledigaeth cymod yn fyw a'r gobaith o adnewyddu perthynas gyda chyfiawnder a gwirionedd, tra'n anrhydeddu dioddefaint y sawl sydd wedi colli cymaint. Cofiwn hefyd y rhai hynny yn Rwsia sydd â'r dewrder i fod yn dangnefeddwyr a thrwy hynny yn wynebu perygl personol. Yn olaf, cofiwn fod y drasiedi sydd yn datblygu yn yr Wcráin yn cael ei rhannu gan gymunedau mewn rhannau eraill o'r byd sydd angen ein cefnogaeth ac sydd mewn perygl o gael eu hesgeuluso. Gweddiwn dros ddiodefwyr rhyfel a anghofwyd ac ystyriwn yr hyn a allwn ei wneud er mwyn amlygu eu dioddefaint.

Mae'r rhan o'r Ysgrhythur heddiw yn cynnig her a chysur. Cawn ein galw at synnwyr o gyfrifoldeb – allwn ni ddim gadael popeth i Dduw. Cawn ein hatgoffa o'r angen am ostyngeddrwydd – does dim modd i ni gyflawni unrhyw beth heb Dduw a'n man cychwyn yw gofyn am fendith Duw a chymorth gyda'n hymdrechion.

## Cwestiynau ar gyfer myfyrddod a thrafodaeth

- Gwrandewch ar sesiwn thematig Cyngor Eglwysi'r Byd ar [Ryfel yn Wcráin](#). Beth sy'n eich cynhyrfu fwyaf o lais yr Eglwys yn Wcráin?
- Ystyriwch ystod y gwrthdrawiadau a'r bygythiadau i heddwch a amlinellir yn natganiad Cyngor Eglwysi'r Byd ar '[Y pethau sy'n achosi heddwch](#)'. Sawl un o'r rhain ydych chi'n ymwybodol ohonyn nhw, ac o'r rhain, faint ydych chi'n eu dilyn yn frwd?
- Ydych chi'n credu y gallai'r Eglwys wneud mwy i helpu i gyfrannu tuag at ymateb mwy cyfannol i gwestiynau byd-eang o heddwch, diogelwch a chymodi?

## Gweithredoedd

- Lawrlwythwch adnodd gwasanaethu Cyngor Eglwysi'r Byd, [Gwerddon Heddwch/An Oasis of Peace](#) a/ neu gwylwch rai o'r sesiynau addoli ar sianel [YouTube Cyngor Eglwysi'r Byd](#) fel adnodd a ffynhonnell o wybodaeth.
- A allech chi gymryd peth amser i weddio dros rai o'r gwrthdrawiadau a sefyllfaoedd a amlinellir yn natganiad Cyngor Eglwysi'r Byd '[Y pethau sy'n achosi heddwch/The things that make for peace](#)', yn enwedig y pethau hynny sydd yn y newyddion yn llai aml.
- Fe'ch gwahoddwn chi i ddefnyddio tudalen adnodd CTBI ar [gymorth eglwysig ar gyfer Wcráin](#) er mwyn cofnodi blwyddyn ers ymosodiad Rwsia drwy weddi, codi ymwybyddiaeth a chefnogi anghenion dyngarol.

## Gweddi

Dduw cariadus,  
Llywia ein hymdrechion wrth i ni geisio ymateb  
I'r alwad i fod yn dangnefeddwyr.  
Maddau i ni ein camweddau a'r cyfleoedd a gollom.  
Gwna ni'n drugarog yn ein hymateb i dioddefaint,  
Ac yn ddewr yn ein hymrwymiad i gymodi.  
Helpa ni i weld yn glir  
y llwybr sy'n arwain at heddwch  
yng nghanol y trais a'r dioddefaint.  
Cadwa obaith am heddwch yn fyw  
yng nghalonau pobl Wcráin,  
a diodefwyr angof rhyfel o amgylch y byd. Amen.

## Apêl DEC Cymru'n codi £2.6 miliwn mewn 8 diwrnod – ond mae'r angen yn parhau



Mae mudiadau ffydd DEC yn uno o blaid goroeswyr daeargrynfeydd, wrth i roddion i apêl Twrci-Syria DEC Cymru gyrraedd £2.6 miliwn mewn wyth diwrnod

O'r eiliad y trawodd daeargrynfeydd dinistriol dde Twrci (a elwir bellach yn Türkiye) a gogledd-orllewin Syria, mae elusennau ffydd DEC (Pwyllgor Argyfyngau/ Disasters Emergency Committee) a'u partneriaid wedi bod yn ymateb drwy'r dydd a'r nos i ddiwallu anghenion brys. Mae o leiaf 41,000 o bobl wedi cael eu lladd, dros 100,000 wedi eu hanafu, a 17 miliwn wedi eu heffeithio.

Mae'r rhoddion i Apêl Daeargryn Twrci-Syria y DEC wedi cyrraedd £2.6m yng Nghymru, ac £88.1 miliwn ar lefel y Deyrnas Unedig mewn wyth diwrnod. Bydd y rhoddion yn cefnogi gwaith aelod elusennau'r DEC sy'n darparu cymorth hanfodol i blant a theuluoedd yn Nhwrcki a Syria. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys £5 miliwn mewn arian cyfatebol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a rhodd o £300,000 gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd **Saleh Saeed, Prif Weithredwr y DEC**: 'Rydym wedi gweld cymunedau ffydd yn ymateb yn sydyn i gefnogi goroeswyr, yma yn y Deyrnas Unedig ac yn ardal y daeargryn. Yn y Deyrnas Unedig mae miliynau o bunnoedd wedi cael eu codi, a gwyddom fod y gefnogaeth yma eisoes yn achub bywydau.'

'Nid yw daeargrynfeydd yn gwahaniaethu rhwng gwledydd na chredoau pobl. Ar draws yr ardaloedd a effeithiwyd, mae addoldai wedi agor eu drysau i'r rhai mewn angen, waeth beth fo'u ffydd neu genedligrwydd, i ddarparu lloches, bwyd, dŵr a dillad cynnes.'

'Mae'r DEC yn ddiolchgar i bobl o bob ffydd – neu ddim ffydd – sydd wedi cefnogi apêl y DEC mewn modd mor hael, ac i'r holl foscgiau ac eglwysi am eu cefnogaeth yn Nhwrcki, Syria ac yma yn y Deyrnas Unedig.'

Mae elusen DEC Tearfund yn Aleppo yn darparu lloches, bwyd poeth, dŵr a dillad cynnes i tua 2,000 o bobl.

Meddai **Cynan Llwyd, Pennaeth Tearfund Cymru**: 'Agorodd eglwys sy'n bartner i Tearfund yn Aleppo ddrysau ei hadeiladau i gynnig lloches a chefnogaeth achubol i filoedd o bobl. Gwyddom pa mor hael y bu ymateb pobl ffydd yng Nghymru dros y blynyddoedd, ac rydym yn eu hannog i barhau i gefnogi'r apêl hon. Mae cefnogaeth pobl ffydd yng Nghymru wirioneddol yn achub bywydau. Galwn arnynt hefyd i weddio dros bobl Syria a

Thwrci. Rydym ni'n gwybod bod gweddi yn gwneud gwahaniaeth. Rydym yn gweddio dros yr ymateb brys, dros y bobl sydd wedi eu heffeithio gan y daeargryn, dros ein partner eglwysig ac am heddwch.'

Mae elusen DEC, **Cymorth Cristnogol**, wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid lleol ar draws gogledd-orllewin Syria ers 2012, mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu rheoli gan y llywodraeth, ardaloedd sy'n brin o adnoddau ac wedi eu tanwasanaethu. Cafwyd eisoes achosion o golera yma, a allai ledaenu'n gyflym heb ddŵr yfed glân.

Y prif anghenion yw citiau gaeaf sy'n cynnwys eitemau fel blancedi, matresi, dillad cynnes, parseli bwyd a deunyddiau gwresogi. Roedd partneriaid y mudiad yn yr ardal eisoes wedi llwyddo i brynu gwerth £40,000 o becynnau'r gaeaf gydag arian Cymorth Cristnogol ac fe ddsbarthwyd y rhain yn syth.

Ychwanegodd **Nan Powell-Davies, Cadeirydd Pwyllgor Cenedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru**: 'Mae ein neges yn un syml: cydsafwn ochr yn ochr â phobl sy'n dioddef. Rydym yn hynod ddiolchgar am haelioni pobl yng Nghymru, a byddwn hefyd yn annog pobl ffydd i weddio. Gweddiwch am gysur a nerth yn wyneb colled a phoen, ac am ddoethineb a dewrder yn y penderfyniadau a wnaed yn ystod yr ymateb dyngarol.'

'Gallwn ddangos ein bod yn cydsefyll gyda phobl yn y ddwy wlad sydd angen ein gweddiau a'n gweithredoedd – mae pob gweddi, pob rhodd, pob gweithred yn dod â gobaith.'

Mae elusen DEC, CAFOD, wedi cefnogi partneriaid yn Syria ers y gwrthdaro 12 mlynedd yn ôl. Felly roedd gan yr elusen bartneriaid eisoes ar lawr gwlad oedd yn gallu ymateb yn syth pan drawodd y daeargryn. Mae hyn wedi cynnwys darparu lloches, bwyd, dŵr, blancedi cynnes a chitau gaeaf i helpu pobl i ymdopi â thymheredd rhewllyd.

Dywedodd **Christine Allen, Cyfarwyddwr CAFOD**, asiantaeth cymorth swyddogol yr Eglwys Gatholig: 'Mae pobl Syria wedi cael eu poenydio gan ryfel ers dros ddegawd. Roedd teuluoedd eisoes wedi colli cymaint, a llawer wedi colli eu cartrefi, eu bywoliaeth a'u hanwyliaid. Mae dioddef daeargryn, ar ôl wynebu cymaint eisoes, yn dorcalonnus.'

'Mae'n hanfodol ein bod yn cofio holl ddiodeffwyr y daeargryn dinistriol hwn yn Nhwrcki a Syria yn ein gweddiau, ac rwy'n

gweddio y gall pobl Syria ailadeiladu eu bywydau a chanfod heddwch a diogelwch o'r diwedd. Gweddiwn hefyd dros ein partneriaid lleol, pobl Syria, sy'n rhoi cymaint o'u hamser a'u hymroddiad yn ystod y cyfnod anodd hwn.'

Mae elusen DEC **Islamic Relief Worldwide** yn dweud bod effaith y daeargrynfeydd hyn wedi bod yn ddinistriol ac y bydd yn effeithio ar fywydau am genedlaethau i ddod.

Dywedodd **Waseem Ahmed, Prif Swyddog Gweithredol Islamic Relief Worldwide**: 'O fewn oriau i'r daeargrynfeydd daro, ymatebodd timau Islamic Relief yn Türkiye a Syria. Maen nhw wedi bod yn gweithio bob awr o'r dydd a'r nos, gan roi cefnogaeth a chymorth i nifer o deuluoedd.'

'Ar draws Syria a Türkiye, mae pobl yn wynebu eu horiau mwyaf tywyll o ddiodeffaint a chaledi. Yn y cyfnod anodd hwn rydym yn pwyso ar ein ffydd am y nerth sydd ei angen mor daer a gweddio am drugaredd Allah ar bawb a effeithiwyd. Rwy'n hynod ddiolchgar am y don o haelioni a welwyd yn wyneb yr apêl.'

Mae elusen DEC **World Vision UK** yn cynnull ei thimau amddiffyn plant at ei gilydd i sicrhau bod plant sy'n cael eu heffeithio gan yr argyfwng hwn, gan gynnwys y rhai sy'n amddifad neu wedi'u gwahanu oddi wrth y rhai sy'n gofalu amdanynt, yn ddiogel ac yn derbyn gofal.

Dywedodd **Mark Sheard, Prif Swyddog Gweithredol World Vision UK**: 'Mae argyfwng dyngarol o'r raddfa hon yn galw am ymateb dyngarol sy'n hanesyddol yn ei haelioni, ac rydym mor ddiolchgar i'r rhai sydd wedi cefnogi apêl y DEC hyd yn hyn.'

'Rydym yn annog pobl ffydd i barhau i gadw Syria a Türkiye yn eu gweddiau. Safwn gerbron Duw a galarwn gyda'r rhai sydd wedi colli anwyliaid neu gartrefi. Gofynnwn i Dduw ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen ar y rheini sy'n cynnig cymorth dyngarol hanfodol i bobl sydd mewn dirfawr angen.'

Dim ond am eiliadau y parhaodd y daeargrynfeydd, ond bydd yr ôl effeithiau'n cael eu teimlo am flynyddoedd. Bydd eich cefnogaeth yn helpu elusennau DEC i gynyddu eu gwaith a darparu cefnogaeth nawr ac yn y misoedd i ddod.

Plis, cyfrannwch beth allwch chi ar: [dec.org.uk](http://dec.org.uk).

# Dioddefaint a Duw yn y doc

Ar 6 Chwefror bu daeargryn sylweddol iawn yn ne Twrci a gogledd Syria. Wrth imi ysgrifennu, nifer y rhai sydd wedi colli eu bywyd yw 42,000, gyda'r rhif yn codi bob dydd. Mae tua 115,000 o bobl wedi eu hanafu a bron i ddwy filiwn a hanner wedi colli eu cartref. Ry'n ni wedi clywed am unigolion yn profi achubiaeth ryfeddol, yn cael eu tynnu o'r rwbwl wedi deg diwrnod. Ar y cyfan, serch hynny, prin yw'r achosion hyn, er yn drugaredd fawr. Digwyddodd hyn yng nghanol gaeaf miniog, ac mae ymateb dyngarol wedi dod o sawl cyfeiriad, gyda'r angen mor fawr a'r argyfwng yn hawlio ymateb brys.

## Pam mae hyn wedi digwydd?

Yr esboniad daearegol yw fod ffawtlin (*fault line*) fawr yn yr ardal lle digwyddodd y ddaeargryn. Ar ben hynny, mae'r Arlywydd Erdogan wedi addo erlyn datblygwyr sydd yn gyfrifol am godi adeiladau cwbl anaddas i wrthsefyll cryndod, er eu bod yn gwybod am y bygythiad.

Yna daw'r cwestiynau athronyddol a chrefyddol. Bydd rhai yn gweld cyfle i erlyn yr Hollalluog. Sut allai Duw da, nerthol a hollalluog ganiatáu'r fath ddiodeffaint? Fel petai'r Crëwr yn atebol i'r creadur!

Wrth droi at y Beibl, ry'n ni'n clywed yr Arglwydd Iesu yn ein rhybuddio ac yn ein paratoi ar gyfer digwyddiadau o'r mathyma: 'Byddwch yn clywed am ryfeloedd a sôn am ryfeloedd; gofawlwch beidio â chyffroi, oherwydd rhaid i hyn ddigwydd, ond nid yw'r diwedd eto. Oblegid cyfyd cenedl yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn theyrnas, a bydd adegau o newyn a daeargrynfâu mewn mannau. Ond dechrau'r gwewyr fydd hyn oll.' (Mathew 24:6-8)

Gallwn weld nifer o bwyntiau yn codi o eiriau Iesu:

- **Ni ddylem gyffroi** – fel petai hyn yn golygu bod cwrs hanes allan o reolaeth. Na, mi fydd digwyddiadau tebyg yn digwydd ar hyd yr amser nes bod yr Arglwydd yn dod yn ôl. Nid na ddylem weithio i osgoi rhyfeloedd a niwed trwy ddaeargryn, ond fe fyddan nhw'n rhan o fywyd yn y byd.
- **Byd syrthiedig** – mae hyn yn ein hatgoffa ni ein bod mewn byd syrthiedig. Fe ddywedodd Duw wrth Adda (ac Efa) yn sgil eu gwrthryfel a'u pechod: 'melltigedig yw'r ddaear o'th achos; trwy lafur y bwyte'i ohoni holl ddyddiau dy fywyd' (Genesis 3:17). Mae'r Beibl yn sôn am y greadigaeth yn ochneidio, a ninnau fel Cristnogion yn ochneidio hefyd, oherwydd ein bod yn byw mewn byd sydd yn dioddef o drawma pechod, dan felltith rannol – yr ydyn ni'n ei haeddu. Mae hyn yn golygu byd



â diodeffaint, trychinebau, drygioni a marwolaeth, er nid ym mhob man bob amser, trwy drugaredd Duw.

- **Mae Duw yn caru'r byd** – serch hynny, byd Duw yw hwn. Ac fe garodd y byd yn y fath fodd nes anfon ei Fab i'n byd i fod yn Waredwr. Daeth ef i fyw heb bechod na gwrthryfel yn erbyn Duw ac i dderbyn cosb marwolaeth a melltith ar y groes. Atgyfododd a mynd i'r nef i baratoi lle ar gyfer ei bobl.
- **Newid dynoliaeth** – oherwydd hyn, mae Duw yn galw dynoliaeth i ddod yn ôl ato trwy edifarhau am eu pechod ac ymddiried yn Iesu Grist. Pan mae person yn gwneud hyn, mae'n greadigaeth newydd; mae'n dod yn rhydd o felltith ei bechod ac o gondemniad. Caiff brofi cariad anfeidrol Duw, tangnefedd Duw a chwmni Duw, trwy berson yr Ysbryd Glân. Caiff ei nerthu i fod yn halen ac yn oleuni yng nghanol byd o bechod, poen a diodeffaint.
- **Newid y greadigaeth** – pan ddaw Iesu Grist yn ôl, fe fydd diwedd ar y byd fel ry'n ni'n ei nabod nawr. Mae Iesu'n defnyddio'r ymadrodd 'dechrau gwewyr' am ddiodeffiadau presennol. Mae'n ddarlun o wraig yn dechrau poenau esgor. Wrth i'w hamser ddod

yn nes, daw'r poenau'n amlach ac yn gryfach nes daw poen mawr a chyson y geni. Ond yna daw person newydd i'r byd. Ac ar ôl trychineb diwedd y byd, daw nefoedd newydd a daear newydd i fod, heb bechod, melltith, poen, dagrau na marwolaeth. Bydd y rhai a wrthododd edifarhau yn profi colled dragwyddol yn uffern. Bydd y greadigaeth newydd ar gyfer y ddynoliaeth newydd yn Iesu Grist.

## Ymateb

Gadewch i ni wlo gyda'r rhai sydd yn wlo yn Nhwrci a Syria.

Gadewch i ni weddio dros y rhai sydd wedi profi cymaint o golledion, gan gynnwys brodyr a chwiorydd yng Nghrist.

Gadewch i ni roi yn hael i helpu i liniaru'r poenau erchyll.

Diolch fod Gair Duw yn ein helpu mewn sefyllfa fel hyn. Boed i ni gofio ein bod mewn byd syrthiedig, a'n bod ni'n syrthiedig hefyd, ac yn haeddu'r felltith ry'n ni'n ei phrofi.

Diolch mai byd Duw ydyw o hyd, a'i fod wedi ein caru a darparu Gwaredwr, bywyd newydd a chreadigaeth newydd i bob un sydd yn edifarhau ac yn credu yn Iesu Grist.

John Treharne

## ADNABOD

## Cymeriadau'r Hen Destament

## ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 19 Y Duw sy'n gweld

**Darllen: Genesis 16:6–16**

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 11)

Yr wyf wedi nodi nad oes neb yn dod i'r blaen o ran y tri chymeriad yn yr hanes yma. Tebyg mai'r gorau y gellir ei ddweud yw nad oedd Sarah mor euog ag Abraham, ac nad oedd Hagar mor euog â Sarah. O ran Hagar, mae'n debyg ei bod hi wedi dychwelyd gydag Abraham a Sarah yn dilyn eu taith i'r Aiff, oherwydd cawn ddisgrifiad ohoni fel 'Eiffes' yn adnod 1. Roedd yn 'eiddo' Sarah, rhywbeth sy'n ddieithr iawn i ni ei ddeall bellach, ond rhywbeth fyddai'n gwbl dderbyniol o fewn y diwylliant hwn, ac yn wir fyddai'n dderbyniol am ganrifoedd ar ôl hyn. Does dim cyfeiriad o gwbl at yr hyn yr oedd Hagar yn ei feddwl o awgrym Sarah, dim cyfeiriad chwaith at ei theimladau am gael cyfathrach ag Abraham, ac fel y dywedais yr wythnos diwethaf does dim cyfeiriad ati hi fel person, dim ond fel morwyn. Ond, wedi iddi ddod yn feichiog, fe glywn fod Sarah wedi mynd yn ddibris yng ngolwg Hagar, un o'r pethau hynny y mae llyfr y Diarhebbion, wrth gyfeirio at y pethau sy'n cynhyrfu'r ddaear, yn ei nodi: morwyn sy'n disodli ei meistres. Beth bynnag, mae Sarah mor gas tuag ati fel bod Hagar yn ffoi yn y diwedd (adnod 6).

Tebyg fod ei sefyllfa bellach yn y medrwn ei deall yn iawn. Roedd yn forwyn mewn gwlad ddieithr, a hynny mewn diwylliant oedd â meddwl isel iawn o ferched. Bellach mae'n feichiog; mae ar ei phen ei hun, sefyllfa oedd yn ei gwneud yn gwbl ddinod a bregus. Yn y cyflwr yma o wrthodiad mae'n teithio i lawr tua'r Aiff, yn ôl at ei theulu a'i chydabod, mae'n debyg; ond mae'n amheus a fyddai wedi cael croeso yno chwaith. Anodd dychmygu'r syndod felly i hon pan mae 'angel yr Arglwydd' yn ymddangos iddi – un oedd yn ei hadnabod, yn adnabod ei hamgylchiadau, yn adnabod ei chyflwr, yn adnabod ei hangen, yn adnabod ei henw!

Nid cwestiwn yn gofyn am wybodaeth yw adnod 8; mae Duw yn gwybod yn iawn lle rydym. Mae'n gwestiwn sy'n rhoi hyder inni yn niddordeb y nefoedd yn ein sefyllfa ni ac yn rhoi cyfle i ni gydnabod i ni ein hunain ac i Dduw ble rydym. Mae esiampl arall o'r cwestiwn hwn yn ganolog i hanes Adda yn yr ardd, ym mhennod 3:9: 'Ond galwodd yr Arglwydd Dduw ar y dyn gan ddweud wrtho, "Ble 'rwyf ti?"' Yn dilyn y cwestiwn ac anogaeth i ddychwelyd at Sarah, cawn yr addewid iddi, addewid am ei disgynyddion. Yn Genesis addewid i'r Patriarchiaid yw hwn yn arferol: mae Abraham yn cael addewid am ei deulu, ac mae ei fab, Isaac, a Jacob yn cael yr un addewid. Ond mae yna addewid chwyldroadol yn y cyd-destun: mae'r addewid yn dod i ferch. Ceir addewid o amddiffyn a bendith (adn. 10), a phob tro y byddai'n galw ar ei mab, byddai'n galw i gof ystyr ei enw – Ismael, 'yr Arglwydd sy'n clywed' (adn. 11).

Os oes rhyfeddod cyd-destunol yn y ffaith fod Duw yn addo bendithio teulu'r ferch yma, mae mwy i ddod. Dyma'r enghraifft gyntaf yn y Beibl o berson yn rhoi enw i Dduw. Mae'r enw, *El-roi*, yn golygu 'y Duw sy'n gweld', ac mae'n enwi'r ffynnon i gydnabod hynny. Ystyr *beer lahai roi* yw 'ffynnon yr un sy'n byw ac yn fy ngweld'. Er nad yw cyfieithiad y Beibl Cymraeg Newydd yn eglur yma, yn y gwreiddiol yr hyn mae Hagar yn ei ddweud yw: 'yma yr wyf wedi gweld cefn yr un sy'n fy ngweld'!

Onid yw'n rhyfeddol fod y fam sengl yma yn cael ei gweld gan Dduw, yn cael ei chyfrif, yn werthfawr, yn cael ei pharchu fel unigolyn sy'n dwyn delw ei Chreawdwr. Mae'n debyg nad oedd wedi ei gweld fel hyn gan neb arall: eiddo i Sarah oedd hi, neu, hyd yn oed yn waeth, dim mwy na rhyw beiriant deor! Ond gwelodd Duw hi; fe'i gwelodd, fe'i clywodd. Roedd yn ei hadnabod, yn deall ei hanes, ac mae'n siarad i mewn i'w hofnau i ateb ei sefyllfa, a hynny wrth ymyl y ffynnon hon. Mae'n debyg fod yna gysgod o wraig arall ddaeth at ffynnon yn Samaria, a chwrdd â'r Arglwydd, un a oedd yn ddiweddarach am rannu â'i chyfeillion:

'Dewch i weld dyn a ddywedodd wrthyf bopeth yr wyf wedi ei wneud. A yw'n bosibl mai hwn yw'r Meseia?' (Ioan 4:29)

Mae gofal Duw o'r fam a'r plentyn hwn yn rasol a rhyfeddol. Os oedd ei hamgylchiadau'n peri i Hagar golli pob gobaith, mae Duw yn dod ati i dawelu ei hofnau, i siarad, i gyfarfod â'i hangen, gydag addewid y byddai'n cyfarfod ag angen y mab yr un modd. Pan mae'n gorfod gadael eto am yr anialwch ym mhennod 21, cawn Dduw yn ei hatgoffa am ei addewid iddi (21:17) a'r addewid i ddiogelu Ismael (21:20).

1. Fel gweinidog, yr oedd pobl yn gwerthfawrogi pan fyddwn yn eu holi am eu plant, ond yn fwy gwerthfawrogol os oeddwn yn eu holi am y plant ac yn dangos fy mod yn gwybod eu henwau. Sut medrwch chi, a sut gall eich eglwys, weithio at sicrhau bod y bobl sydd o'ch amgylch yn gwybod eich bod yn eu hadnabod wrth eu henwau?
2. I raddau helaeth iawn, mae Hagar ar drugaredd ei hamgylchiadau. Doedd fawr y medrai ei wneud am y diwylliant, fawr y medrai wneud am Sarah ac Abraham, a bellach fawr y medrai ei wneud am wynebu bywyd fel mam ddibriod. Meddyliwch am sefyllfaoedd lle rydych wedi ceisio rhesymau am amgylchiadau pobl, yn hytrach na derbyn bod yna bobl ar drugaredd eu hamgylchiadau. Sut mae hyn yn newid eich agwedd atynt?
3. Mae Duw yn nesáu at Hagar, i bob golwg, yn gwbl ddigymell. Yn Ioan 4, lle cawn hanes y wraig o Samaria, dywedir am Iesu: 'Ac yr oedd yn rhaid iddo fynd trwy Samaria' (adn. 4). Nid daearyddiaeth, ond ei ewylllys grasol, oedd y tu ôl i hyn. Sut mae gras Duw at Hagar, yn ei gweld, yn ei chlywed, yn ateb ei hangen, am ein symbylu ni i estyn y gras hwnnw drwy fynd allan o'n ffordd i rannu gras Iesu â phobl?

S4C

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol**  
Sul, 26 Chwefror, am 7.30yh

Wcráin: noddfa yng Nghymru  
Mae yna flwyddyn ers i fyddin Rwsia ymosod ar Wcráin. Yma yng Nghymru mae teuluoedd wedi agor eu calonnau a'u haelwydydd i rai mewn angen. Cawn gyfarfod rhai o drigolion Wcráin a gafodd eu heffeithio gan y rhyfel ac sydd bellach yn byw yng Nghymru.

BBC radio cymru

**Caniadaeth y Cysegr**

Sul, 26 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp

Gwladgarwch – R. Alun Evans yn cyflwyno emynau ar y thema Gŵyl Ddewi

Sul, 26 Chwefror, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Mary Stallard, Esgob Cynorthwyol Bangor

## Coffâd – y Parchedig Raymond Jones

Brodor o Flaenau Ffestiniog oedd Raymond, yn fab i'r diweddar William Benjamin a Gwen Jones. A hithau'n ddyddiau tywyll yr Ail Ryfel Byd, ni welodd ei dad hyd 1946 ac felly bu dylanwad mam a thaid a nain yn drwm ar ei gerddeddiad cynnar.

Yn dilyn ei addysg elfennol dechreuodd weithio fel postmon, ond buan iawn y trodd ei olygon tuag at Lundain a hynny wrth iddo dderbyn swydd weinyddol yn yr Admiralty, o bob man. Byddai'n sôn am y blynyddoedd hynny gydag anwyldeb a bu'r gymuned Gymreig mewn addoliad a hamdden yn gymorth iddo addasu ac ymsefydlu. Dechreuodd gael gwersi canu ac roedd yn meddu ar lais tenor swynol.

Ond mi roedd yna hiraeth am ddychwelyd i'r Blaenau ac ailgydiodd yn ei waith gyda'r Swyddfa Bost. Cyfarfu â Brenda o Fryn Ellyd, Tanygrisiau – cyfarfyddiad a arweiniodd at garwriaeth ac, ymhen amser, at briodas. Bendithiwyd yr uniad gyda dyfodiad Maria, Paula a Peter, a bu'n dad, yn daid ac yn hen daid cariadus a gofalus trwy gydol ei fywyd.

Yn dilyn cyfnod byr gyda'r RSPCA, symudodd i Swyddfa Bost Aberystwyth ac ymhen amser i Hwlfordd, a daeth siroedd Penfro a Cheredigion yn gartref iddo ef a'i deulu hyd ei farwolaeth.

Tra oedd yn gweithio yn Hwlfordd, yn dilyn anogaeth ei weinidog, y diweddar Richard Williams, dechreuodd bregeth. Ac ymhen amser trodd ei olygon tuag at y Coleg Diwinyddol Unedig, Aberystwyth, a dilyn cwrs a arweiniodd at ei ordeiniad yn 1990. Dychwelodd i sir Benfro ac i ofalaeth Abergwaun, oedd yn cynnwys Pen-towr, Gwdig, Trefdraeth, Brynhenllan, Glan-rhyd a Tyddewi, gan symud ymhen amser i Aberteifi ynghyd â Blaenannerch, Aber-porth, Blaen-cefn, Tan-y-groes a Bryn Seion. Bu'n fugail cydwybodol, uchel ei barch, a rhoddai bwyslais mawr ar ddefosiwn personol a chynulleidfaoel. Byddai'n darparu'n ofalus a hynny yn ei lawysgrifen ei hun, a byddai ei ofal bugeiliol a'i weddiâu dros ei aelodau yn gysur ac yn gynghaliaeth.

Wedi ymddeol, dychwelodd ef a Brenda i ardal Aberystwyth gan fwynhau hamdden



ymhlith teulu a ffrindiau. Bu'n ffyddlon i oedfaon a chyfarfodydd wythnosol Capel y Morfa, gan barhau i wasanaethu capeli'r ardal. Ergyd drom iddo oedd marwolaeth ei annwyl Brenda, a hynny'n dilyn cyfnod byr o salwch. Treuliodd ei fflynyddoedd olaf mewn cartrefi gofal, gan derfynu'r daith yng Nghartref Bronesbury Lodge, Aberteifi. Yn berson annwyl a diymhongar, bu'n ffrind da i'w gyd-weinidogion ac yn was ffyddlon, tawel i'w Arglwydd.

Bu'r angladd yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, ar 29 Rhagfyr gyda'r Parchedigion Eifion Roberts a Llunos Gordon yn gwasanaethu.

*Eifion Roberts*

## Ffa Bach yn Sboncio yn Wrecsam

Ceir cydweithio da rhyngom fel eglwysi yn Wrecsam, ac mae hynny'n cynnwys yr eglwys newydd, Hope Street Church, sydd wedi ei sefydlu yn hen adeilad siop Burton, gyferbyn ag Eglwys Sant Silyn yn y dref.

Ers y flwyddyn newydd rydw i a gweithiwr plant Hope Street Church, Sara Edwards, wedi dechrau dod ag ychydig o elfennau Cymraeg i'r adran 'Stori a Chân' yn sesiwn rhiant a'i phlentyn yr eglwys. Cefais y syniad yn wreiddiol oherwydd bod ein grŵp Gorlan Fach yng Nghapel y Groes, Wrecsam, wedi gweld lot llai yn dod yn dilyn y cyfnod clo. Mae grwpiau eraill wedi dechrau a phobl wedi mynd i arferion gwahanol. Cefais y syniad o gydweithio fel bod lle i ni fel eglwys anfon ein teuluoedd gyda babanod bach, ac fe fasai'n rhoi elfen ychwanegol i Hope Street hefyd a'r teuluoedd sydd yno yn barod.

Sefydlwyd y grŵp ryw flwyddyn a hanner yn ôl bellach, ac mae'n tyfu o hyd. Roedd 54 o blant ac oedolion yn yr ystafell yr wythnos diwethaf! Erbyn hyn, mae tipyn o'r rhieni sy'n mynychu yn siarad Cymraeg, neu'n dysgu, ac felly gweddiwn y byddant yn gallu creu cymuned o gymorth i'w gilydd ac adeiladu perthynas. Efallai bydd angen enw Cymraeg ar y grŵp yn fuan wrth i'r mewnbwn Cymraeg gynyddu ... ond mae cyfieithu Bouncing Beans yn reit anodd, yn'tydi, fel y gwelwch o deitl y darn hwn! Mae croeso i unrhyw un o unrhyw gefndir ac iaith i ddod. Mae'r fenter yma'n un ffordd y mae'r eglwys yn ceisio dod i nabad pobl Wrecsam a'r ardal a gwneud i bobl deimlo fel rhan o gymuned, a rhoi cyfle i famau a thadau a gofalwyr gymdeithasu.

Cawsom syrpréis neis yr wythnos yma yn gweld ein ffrindiau Catrin a Chloe a'u plant, Llew a Mari, yn dod draw o'r Wyddgrug er mwyn cael blas ar y gweithgaredd a meddwl pa ffordd orau i gynllunio ar gyfer dechrau grŵp tebyg eu hunain. Mae cael cyswllt fel eglwysi gyda theuluoedd fel hyn mor werthfawr ac mae'r ddarpariaeth a'r cydweithio yma rhyngom yn Wrecsam yn dangos un ffordd y gall yr



eglwys fod yn gwasanaethu teuluoedd. Dwi'n gwybod bod o leiaf un o'r mamau wedi dod i nabad Iesu trwy ddechrau dod i'r eglwys a'r addoliad fel canlyniad o ddod i'r grŵp hwn. Doedd ganddi ddim cysylltiad efo eglwys o gwbl cyn hyn: mae hyn yn gymaint o galondid i'n hatgoffa bod Duw ar waith. Edrychwn ymlaen i weld y gwaith a'r elfen Gymraeg yn datblygu yn Wrecsam ac yn lledaenu i lefydd eraill hefyd!

*Siwan Jones*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Adnabod a gorchfygu pechod

Arglwydd Iesu Grist, yn dy oleuni di deallwn ni, blant y cysgodion, beth yw goleuni. Arglwydd, cyffeswn o'th flaen mai gwell gennym yw ceisio byw o dan gochl ein hunangyfawnder nag wynebu dyfnder ein loes. Arglwydd Dduw, dychwel ni atat dy hun drwy dy Ysbryd Glân. Iachâ ni ynddo ef. Amen.

**Emyn 539 'Ai gwir y gair?'**

**Darlleniad – Genesis 2:15–17; 3:1–7**

Yn ein hymateb i ddau gwestiwn cyntaf y Beibl datgelir dyfnder ein gwrthryfel fel hil, yn ogystal â thrugaredd yr Arglwydd tuag atom!

Clywch lais cyhuddgari gwrthryfelwr. 'Ayw Duw yn wir wedi dweud?' Dyma ddechrau hau hadau dryswch ac amheuaeth mewn rhai sydd mor barod i gael eu twyllo.

'Do, fe ddywedodd,' meddwn ninnau. Ond ymhelaethwn. Nid yn unig y dywedodd Duw wrthym am beidio â bwyta o ffrwyth pren y bywyd, chawn ni ddim hyd yn oed ei gyffwrdd, meddwn. A gwreiddir yn ein meddwl mai Bod crintachlyd, amharod i fendithio, yw ein Harglwydd.

Chewch chi mo'ch dal, meddai'r un twyllodrus. 'Na! Ni fyddwch farw ...'

Cyfyngu arnoch y mae gair Duw, meddai'r sibrydiad, ar eich profiad, eich rhyddid, eich bywyd yn ei lawnder. I'r ddeuddyn cyntaf roedd posibiladau'r ffrwyth hardd bellach yn 'must have', yn atyniadol i'r llygad ac yn werth mentro i'w berchnogi.

Fel brithyll yn chwarae â'r abwyd, daeth plwc sydyn ar y llinell. Daliwyd ar amrantiad y ddydolryw ar fachyn celwydd.

Yn yr ail gwestiwn, 'Ym mhle rwyd ti?', clywn lais yr hwn sydd am i ni adnabod canlyniad ein hymbellhau oddi wrtho.

Yn y parodrwydd i wrando ar lais y temtiwr collwyd diniweidrwydd, profwyd euogrwydd a chywilydd, torrwyd ar y berthynas â Duw ei hun, fforffedwyd gwynfa. Daeth ymesgusodi a beio eraill i lenwi ein disgwrs fel hil.

Ond yn nyfnder ein calon parhawn fel hil i ddyheu am gael dychwelyd i'r baradwys a fforffedwyd gennym, i ddychwelyd at fywyd, i gytgord â phobl, â'r greadigaeth, â Duw.

Yn y cwestiynu dwyfol clywn lais trugaredd yr Arglwydd sy'n gwybod, yn well na ni ein

hunain, natur ein gwrthryfel, ac erchyllter ei ganlyniad arnom.

Diolch byth na adawodd yr Arglwydd ni i'n haeddiant.

Ymhen y rhawd daeth Iesu Grist, fel Ail Adda, i'n byd fel cynrychiolydd newydd gerbron Duw. Daeth y Mab, y Gwaredwr o osodiad dwyfol, i orchfygu twyll y temtiwr ac i greu ynddo'i hun ddynoliaeth newydd sbon.

**Darlleniad – Mathew 4:1–11**

Torrwyd ar ein perthynas â Duw mewn gardd. Ond ar groesbren ddiffwrth, ar domen sbwriel y ddinas, cymodwyd ni â Duw yng Nghrist.

Dros gyfnod o bedwar deg o ddyddiau heriol fe safodd ein Harglwydd ei hunan. Nid ildiodd o dan bwysau cyni, na chan ei ofnau chwaith, i'r demtasiwn o amau haelioni darpariaeth Duw. Ni syrthiodd i'r demtasiwn o fynnu ei hawliau, nac o arddangos ei allu mewn sioe o rym er mwyn trechu ei elynion. Ni dderbyniodd amodau'r temtiwr i blygu i dwyll er mwyn sefydlu ei deyrnas, na chwaith i ymostwng i werthoedd llygredig er mwyn cynnal ei deyrnasiad.

Mewn gostyngeddwrwydd, mewn ufuddod ffydd, mewn datganiad digymrodedd o frenhiniaeth yr Arglwydd, 'Fe safodd fy Mrenin ei hunan, / gorchfygodd hiliogaeth y ddraig'.

A'r Iesu rhyfeddol, gogoneddus hwn, Iesu a brofwyd fel ninnau, heb ildio am foment i sibrydion melys y twyllwr, yw'r hwn sydd yn eiriol drosom. Ac yn ei enw ef gallwn nesáu'n hyderus at orsedd drugarog y nef heddiw i dderbyn gras yn gymorth cyfamserol (Hebreaid 4).

**Emyn 491 'Boed mawl i Dduw'**

**Darllen – Salm 32**

'Mae isio i ti ddysgu maddau i ti dy hun', yn ôl doethineb poblogaidd ein dydd. Ac ar ryw lefel, mae yna beth gwirionedd yn hyn. Allai neb ohonom fyw gyda phwys a baich ein holl fethiannau na'u cario'n ddyddiol.

Ond tybed nad oes yna elfen o ddwyfoli ein hunain mewn gosodiad o'r fath? Mae fel pe bai gennyf allu dwyfol i faddau dyledion a'm rhyddhau fy hun o afael y drwg.

Pwy ohonom na fyddai am droi'r cloc yn ei ôl a chael ail gynnig pan wnaethom gam â

rhywun arall? Pwy ohonom na fyddai am gael clywed llais maddeuant ac adferiad gan y bobl yr ydym wedi troseddu yn eu herbyn neu eu clwyfo? A does dim ots faint o weithiau dwi'n 'dysgu maddau i mi fy hun' mi wn, yn nyfnder fy nghalon, nad yw hynny'n fy rhyddhau o hualau fy nghamwedd, na'm bai, na'm pechod.

Os mai yn erbyn bod tragwyddol, sanctaidd a chyfiawn y mae fy nhrosedd, sut gall meidrolyn amherffaith ac anghyfiawn gyhoeddi maddeuant nes clirio llyfrau'r nef yn llawn?

Hybu rhagrith, cuddio dan gochl parchusrwydd yw hyn; hunan-dwyll o'r radd flaenaf yw pob maddeuant o'r fath. Mae'n fy ngadael yn unig, wedi fy nyysu, wedi fy nieithrio ac mewn caethiwed.

Nid ar hap y mae mudiadau sy'n hybu iechyd y rhai a gaethiwyd i alcohol, neu gyffuriau, neu bornograffi, neu ... yn mynnu bod y rhai sydd ar y rhaglen yn gorfod sylweddoli a chydabod, yn y lle cyntaf, nad ydynt yn alluog i wella eu cyflwr ohonynt eu hunain. Ac yn ystod y broses iacháu caiff pob un ei orfodi i wynebu, yn gwbl onest, nid yn unig y camweddau a wnaed yn eu herbyn, ond hefyd realiti ac effeithiau'r hyn a wnaed ganddynt hwy ar bobl eraill.

Heb wynebu'r hyn ydym, nid oes iachâd gerbron pobl, gerbron Duw.

Yn awr, dychmygwch wynebu'r troseddau, y camweddau, y celwyddau sydd yn ein bywydau ym mhresenoldeb a gerbron yr Arglwydd sanctaidd, glân, sy'n fedrus i iacháu. Meddyliwch pa mor boenus fyddai wynebu ei edrychiad llym. Meddyliwch cymaint o ryddhad a ddeuai i'n rhan o glywed ei lais yn dweud ei fod wedi maddau ein troseddau ac wedi cuddio ein pechod. Gwyn ei fyd, yn wir. yw'r 'sawl nad yw'r Arglwydd yn cyfrif ei fai yn ei erbyn'.

Yn lle gwingo a chrebachu dan bwysau a gwres ein cydwybod euog, mor hyfryd fyddai clywed bod Duw, yng Nghrist, wedi delio â'n pechod, wedi maddau ein bai, ac wedi ein rhyddhau. Pwy na ddiolchai o lwyrffryd ac o ddyfnder eu calonnau wedi iddynt glywed bod ffyddlondeb ei ras yn ddi-ben-draw ac yn ddigyfnawd?

**Gweddi**

Beth am oedi i ddiolch am yr hyn gyflawnwyd drosom ni, drosoch chi, yn Iesu Grist.

<https://www.youtube.com/watch?v=cePf--89IU>

**Emyn 517 'Dros bechadur buost farw'**

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)